Rhifyn 33
Tach 2010

# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*



## Llun y mis:
## lindys y siobyn gwelw

Cafodd Aled Jones y lluniau hyn ym mis Medi eleni ym Mhenrhyndeudraeth. Mae'r bwyta dail derw, bedw, a drain duon. Cafwyd llun tebyg gan Griff Wiliams o'r Groeslon. Blwyddyn dda i'r hen siobyn? Dyma draed blaen blewog yr oedolyn (isod).




## Tyrchu am dyrchod



Tyrchod ger Bryn Llys, Llanfihangel Glyn Myfyr, 28 Rhagfyr 1992. Fe'u daliwyd gan y diweddar Norman Evans, Bryn Llys. Llun trwy garedigrwydd Robin Gwyndaf

**Dyddiadur William Jones, Moelfre, Aberdaron** Gyda'r gaeaf ar ein gwarthaf unwaith eto cofiwn am y trafferthion a achosodd y twrch i ffermwyr dros y misoedd blin. Dyma siart yn dangos faint o dyrchod a ddaliodd y dyddiadurwr o ffermwr William Jones ar ddiwedd oes Fictoria ym




mhendraw Pen Llŷn. Mae'r siart yn dangos mai dim ond ym misoedd y gaeaf y bu William Jones yn dal tyrchod. Tybed a oedd o'n rhy brysur yn gwneud pethau eraill yn yr haf ynteu ai yn y gaeaf yn unig oedd y twrch yn gwneud ei ddireidi? Cofnododd William iddo brynu 3 trap yn Ionawr 1887 ond nid ymddangosodd iddo ddal ei dwrch cyntaf (yn ôl y cofnodion beth bynnag) tan Ebrill 1889. Ar ôl hynny bu'n rhaid iddo brynu rhagor o drapiau mae'n debyg, gan iddo ddal 30 twrch yn ngaeaf 1890-1, ym mis Chwefror (10 twrch) ac Ebrill (20 twrch). Y nifer mwyaf a ddaliodd oedd 40 ym mis Tachwedd 1892. Yr unig gyfeiriad y cawn at ei dyrchod wedyn oedd "chwalu tocia twrch" yn Chwefror 1894. Ond mae yna ddigon o ddyddiaduron o'i eiddo i'w astudio eto. **Cofiwch, mae angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith o godi cofnodion o nifer o ddyddiaduron gwreiddiol a diddorol, a'u mewnbynnu i Ddyddiadur Llên Natur....rhowch floedd!** Dyddiadur William Jones trwy garedigrwydd Mrs Wilma Miners a Miss Davida Roberts

**Galwad ffôn gan Harri Richards**, Sarn, Pwllheli ar 20 Awst 2010: soniodd Harri am ei gof yn blentyn tua 12 oed (mae'n 75 rwan) am ddal tyrchod â thrapiau yn Sarn, eu blingo, eu hoelio gyda thin-tacs i ddarn o bren a'u sychu yn yr haul cyn eu danfon yn eu cannoedd i Lerpwl i wneud côt ffŷr ohonynt. Roedden nhw'n ysgafn iawn ar ôl eu sychu.

[O nodiadau a gymerwyd gan DB o sgwrs ffon]

**Diwydiant coll?**

"Nid oes dyrchwr o fewn cof neb byw a fywiai wrth y gwaith hwn wedi bod yn byw yn ein hardal....Y mae gwaith y gwir dyrchwr yn un o celfyddydau mwyaf anodd i'w llwyr ddeall mewn bod, ac mae yn ofynnol ar sylwadaeth fanwl o arferion ac amseroedd y twrch drwy ffrwyth profiad maith a helaeth." Diwydiannau Coll (Bob Owen, Croesor)

**O Ddyddiadur Defi Lango Esgairdawe** 16 Ebrill 1959: Cefais ddwy wahadden heno eto - rwyf wedi cadw cyfrif manwl o'r gwahaddod a ddalwyd yma mewn trapiau oddi ar ddechrau'r gaeaf, a'r rhif heno yw 45

**Samp a gorddodyn:** glywsoch chi'r enwau hyn am y twrch neu'r gwadd? "*In Wales, the mole is known by a variety of names, Man-geni [!], Man-cynhenyd, Samp, Gwadd, and Gorddodyn*"

O George Bolam: Wildlife in Wales 1913

Gŵyl yr Hollsaint 1 Tachwedd

## Daeargryn diweddar yn y Felinheli

*There was a small earthquake locally on 1st September. I was at my computer when I heard a bang and simultaneously felt a distinct thump at 23.10pm. I looked round the house but saw no damage, so thought a section of wall or maybe a slate had fallen down outside. No sign of such next morning. Didn't think any more of incident till a neighbour asked a few days ago if I'd heard a bang around 11pm recently. I thought then it might have been an earthquake or tremor, googled the British Gelogical Survey Seismology and it confirmed a 1.1 Richter, intensity 3, earthquake occured at 22.10 UT (Universal Time ie GMT), 23.10 BST, on 1 Sept centered on Felinheli and felt in the Bangor-Caernarfon area. The Menai Strait is the location of a still quite active fault line, and our area of NW Wales is a region of many such fault lines, and earthquakes are surprisingly quite common in the region.*

Huw Holland Jones

## Mygu'r gwenyn

Ar 25ain. Medi 1889 cofnododd William Jones ei bod yn "Noson mygu y Gwenun". Beth oedd pwrpas mygu'r gwenyn - ai er mwyn eu tawelu ar gyfer cynaeafu'r mel oedd hyn? Meddai Paul Williams, Blaenau Ffestiniog: "Mae'r gwenyn yn llenwi eu boliau efo mêl pan maent yn ogleuo mwg, rhag ofn fod angen dianc rhag tân. Fel fi, pan maent yn llawn o fwyd, maent yn swrth ac felly'n llai tebygol o ymosod ar rywun sy'n tarfu arnynt. Mae Wil Griffiths yn ei lyfr diweddar 'Dyn y Mêl' yn dweud hefyd eu bod yn ei chael hi'n anoddach plygu eu cyrff er mwyn plannu'r colyn yng nghroen rhywun pan mae eu boliau'n llawn. Tymor cynaeafu?: yn ôl Wil G 'Mae blwyddyn y gwenynwr yn dechrau ym Medi ar ôl tynnu'r mel'. Am wn i os ceir ha' bach Mihangel, yna mae'n bosib cymryd rhywfaint o'r mêl allan, cyn belled â bod digon yn sbâr i'w adael i gynnal y gwenyn yn y gaeaf.

## Crwban for yn Sir Benfro



Llun gan Andy Bowen a dynnwyd oddiar Sir Benfro Medi 2010 Rhodd Dr Victoria Hobson ddisgryf da o'i faint i mi dwe. Meddylia am faint hen fodur mini ger tunell o bwysau ac mae hynni yn ddisgrif da oi faint. Ger 8 troedfedd o hyd a rhwng 1500 a 2000 o bwys.

## Llun ar wib



Jest i ddangos ei bod hi YN bosibl i dynnu lluniau o bryfed yn hedfan (cofiwch y cais yn Rhifyn 15 am lun o bryfed Sant Marc

Alun Williams 31 Awst 2010

## *The Wormwood Moonshiner.....*Lloergannwr y Wermod

......planhigyn, gloyn byw, chwilen ynteu UFO? Ewch i weld gwefan http://markgtelfer.co.uk/english-names-of-carabids/ i ddarllen am yr ymdrechion i fathu enwau Saesneg ar y chwilod.

Diolch i Dafydd Lewis am y sylw





Gyda thymor y ffyngau yn tynnu at ei derfyn - neu o leiaf heibio ei benllanw - mae'n amser cymryd stock o'r hydref a aeth heibio. Yn yr Oriel mae yna egin-gasgliad o ffwng Cymru, ond llawer ohonynt heb eto eu henwi. Beth am gynnig adnabod (neu gywiro hyd yn oed - yn garedig wrth gwrs!) rhai ohonynt. Dyma ddetholiad i godi blys - a son am flys, dew roedd y siantarels yna o Dregarth (tudalen 3) yn mmmm!!

Diolch i'r canlyniol am y lluniau: Dominig Kervegant, Gerallt Pennant, Gwyn Williams

G ŵ y l  S a n  F a r t h i n  1 1  T a c h w e d d

## Gwal cysurus



Tafarn y Porthmyn ym mherfeddion Lloegr, a'r geiriau GWAIR-TYMHERUS-PORFA-FLASUS-CWRW-DA-A-GWAL-CYSURUS. Llun: Paul Williams 20fed Gorffennaf 2010

## Yr egroes yn eu dagrau



Cofnodwyd yn llyfr log ysgol gynradd Rhosneigr:

16 Medi 1942: *17lbs rose hips dispatched to Liverpool by passenger train*

24 Medi 1942: *14lbs rose hips dispatched to Gwalchmai, as arranged by the WVS Organisation [Womens' Voluntary Service]*

8 Hydref 1942: *26lbs of rose hips were dispatched to Liverpool by train*

Ac yn llyfr log Ysgol Earle Webster Rd School, Llandegfan, Môn:


6 Hydref 1944: *40 lbs rose hips sent to Mrs Thornton-Jones*

13 Hydref 1944: *84lbs rose hips sent to Mrs Thornton-Jones making a total for the month of 320lbs, £2.13.4 received for the rose hips*

Arddangosfa am Y Rhyfel ym Môn, Oriel Mon

Arferid casglu'r egroes, (bochau cochion neu ffrwythau'r rhosyn gwyllt) yn ystod yr ail ryfel byd pan fyddai orenau (Vitamin C) yn brin. Nid yw tymor yr egroes yn wahanol heddiw.

## Dail crynion y cyrn



Roedd nain yn tyfu'r planhigyn i gael gwared o gyrn ar fodia'i thraed.'Roedd yn enedigol o'r Fanod a bu'n rhaid iddi ddod a dŵr o ffynnon Doctor i'w dyfrio. 'Mae'r planhigion yn dal i dyfu'n ein gardd fach.

Hugh G. Roberts/Llun Peter Benoit

Pan oeddwn i´n blentyn byddai fy mam yn torri´r ddeilen gron yn fach a´i rhoi mewn ´gauze´ i´w rhoi ar ben ddyn neu fyddigiad. Mi fyddai´n saff o fod wedi torri mewn rhyw awr.

Bethan Wyn Jones

Cofio defnyddio blodau hwn i wneud "pwdin reis" wrth chwarae ty bach

Ann Jones

## Mudo'r malwod



"Dyma'r ail dro i falwen rhif 4 ffeindio'i ffordd yn ol i'r ardd, ar ol cael ei thaflu ddegllath dros y ffens i ganol mieri a helyg. Ein bresych yn amlwg yn denu! Dim un o'r 5 arall wedi cyrraedd hyd yma... 13 Medi 2010: Malwen rhif 4 wedi ei chanfod yn y ffa melyn eto ddoe, 11eg Medi. Wedi teithio 14 metr ers Awst 18fed (er na wyddom ers pryd y bu hi yn ei hol). Rhoddwyd hi 20m i ffwrdd y tro hwn, mewn ardal o helyg a mieri. Malwen rhif 5 yw'r unig un arall sydd wedi ei gweld". Arbrawf gan Beca, Stiniog a'i thad Paul.

A dyma ei thaid Viv yn rhoi ei big i fewn: "Mae'r pump arall yng ngardd taid Rhiwbach siŵr o fod Beca, a'r tylwyth i gyd! Go dda Beca, mwy o waith wyddonol fel yna os gweli di'n dda. Gol.

## Dirgelwch hau halen




Dyma gofnod William Jones Moelfre, Aberdaron: **28 Mai 1884 sych Gorphen torri tywyrch cwt 5 Hau halen yn Cae'r Afon** Mae'n son llawer am **nôl** halen, fel arfer yn yr hydref - ond **hau** halen? Beth a olygai tybed - a'r dyddiad wrth gwrs ynghanol y tymor? Unrhyw oleuni ar y mater? A thybed a oes a wnelo tyddyn Cae Halen Bach ym mhlwyf Llandwrog rhywbeth a'r cwestiwn. Mae yna lawr o enghreifftiau eraill o enwau tebyg ar hyd a lled cymru.

## *Ur meuz hep e bar! Un teuzar! Mat abominabl!*



*Penaos aozañ an tokoù-touseg (<u>Cantharellus cibarius</u>)*

*Meskit eoul hag amann en ur baelon domm, lakait ur chalotezenn troc'het munud da fritañ enni e-pad ur pennadig heb na vefe re domm an tan. Lakait ar skebell-touseg bet troc'het a dammoù er baelon ha meskit anezhe e-barzh. Posubl eo ouzhpennañ un tamm kignezenn malet munud goude ha neuze e vez ret lezel ar skebell-touseg da boazhañ dousigoù e-pad ur c'hard-eur bennak. Arabat ankouat lakaat pebr ha holen er fin. Posubl eo lakaat parisilh ivez. Servijit ar skebell-touseg war ur plad ha debrit anezhe gant bara-amann. kemerit ho amzer!*

Reset siantarelau y Llydawr Dominig Kergevan - Ydi mae cyfieithad y reset ar y wefan

Gŵyl Andras 30 Tachwedd

## Twll-din Byd?




Roeddwn i yn Ysbyty Ifan chydig yn ôl (mi fues i'n byw yno cyn mudo i Roshirwaun), a wyddost ti beth oedd enw un o'r bynglos newydd, agosa' at ble'r oeddwn i'n byw? SCRAGEND. Ssssgraagggeeennnd - meddylia am y peth!

Ieuan Bryn

Ystyr *Sgragend* yn ôl yr OED yw “*the lean and inferior end of a leg of mutton or veal”* (Gol.)

## UFO o 1977



Llun: Nicola Williams

Gwir neu gau, dyma sylwadau gonest sydd yn llawn haeddu eu lle yn Llên Natur, diolch i Mair Williams: “Dyma gasgliad o luniau wnaeth y genod yn syth wedi'r digwyddiad. Ni fu dim trafod cyn gwneud y llunau ac mae lluniau pawb yn rhyfeddol o debyg i'w gilydd ac i'r peth welwyd. Roedd Nicola yn un o'r grwp welodd y peth yma wrth i ni chwarae pêl rwyd. Neb ddim callach byth ynglyn â beth oedd o, o lle doth o, na i ble roedd o'n mynd. Rhyfedd te”.

Cyn athrawes Ysgol Rhosybol Mair Williams

### ‘Draw what you saw …’

camgymeriad am ‘Mair’

When netball teacher Bronwen Williams spotted a strange object in the sky during a game she was supervising in February 1977, she knew exactly what to do. She ushered her nine pupils inside Rhos-y-Bol county primary school at Anglesey, gave them pencils and paper, and told them to draw, without conferring, what they had seen. The pictures tallied remarkably – a cigar-shape with a black dome.

That same night policeman's wife Hilda Owen was looking out of her kitchen window when she too noticed a shape gliding silently in and out of the clouds. She drew it in lipstick on the window glass, and her husband made a copy on paper when he returned from duty. It might have been drawn by one of the schoolgirls.


Mrs Owen said the UFO appeared from a ‘tongue of flame’ over Aberffraw Common. ‘At first I thought an aircraft was on fire, but within seconds the flame appeared to form a circle and a domed figure appeared,’ she said. ‘There was no mistaking the shape. I could see portholes quite clearly.’

The shape was still in the sky when her husband arrived home just after midnight. ‘It was the colour of the setting sun and about twice the size of the sun as we see it,’ he said. ‘By the time I got my binoculars out, it had vanished.’

87

Meddai Mair: “Dyma gopi o erthygl mewn llyfr ysgol o'r America”.

## Elinor Brooks



Gelltydd carregog Carreg Hylldrem, Llanfrothen a ysbrydolodd nifer o luniau gan Elinor Brooks. Roedd ei lluniau i‘w gweld ar gylchdaith yr Helfa Gelf ym mis Medi eleni. Ewch i oriel Llên Natur i weld mwy

## Hen dywydd...

Dau gofnod o’r un dyddiad.

27 Hydref 1959: Gale. Glaw mawr. Cawodydd trymion o'r gogledd Rhwymo'r buchod

Dyddiadur Ellen Jones, Ty Crwn, Bodorgan, Mon

Bae Dulas Môn 27 Hydref 1959

*HINDLEA ll While at anchor in Dulas Bay, wind veered to NW and increased to hurricane force, with gusts of 104mph...broke in two on Moelfre Point*

*Shipwreck Index of the British Isles (Lloyds Register of Shipping)*

Mae’r ‘rhwymo’r buchod’ yn ddifyr. Cyfeirio y mae Ellen Jones at roi’r gwartheg i mewn yn y beudy (wedi eu rhwymo â chadwyn) dros y gaeaf. Byddai hyn yn digwydd o gwmpas Glangaea [ddechrau mis Tachwedd]. Tybed a oedd y storm wedi dylanwadu arni i ddod â’r rhwymo ymlaen rhyw chydig, i arbed yr anifeiliaid rhag rhyferthwy’r ddrycin? E’lla byddai edrych ar ddyddiad y rhwymo mewn blynyddoedd eraill yn rhoi’r ateb...?

Twm Elias

A dyma wneud:

Rhiw 17 Tachwedd 1931: Diwrnod eto [efo?] rhwymo'r dynewaid [gwartheg deunaw mis oed].

Dyddiadur Griffith Thomas, gwefan Rhiw

Môn 27 Hydref 1959 : Gale. Glaw mawr Cawodydd trymion o'r gogledd Rhwymo'r buchod

*30 Medi 1960:* Oer. Llo bach Meg (3pm). Llo bach Peggy (11.30pm). Rhwymo 4 o fuchod

Dyddiadur Ellen Jones, Ty Crwn, Bodorgan, Môn

Difyr bod tywydd yn cael ei grybwyll yn y ddau achos yn Ty Crwn o fewn diwrnod o'i gilydd mewn gwahanol flynyddoedd a'r cofnod o Rhiw heb son am dywydd mawr yn dyddio o hwyrach yn y flwyddyn

Meddai Brenda Jones, un o’n mewnbynnwyr ffyddlon: “Mae'n dda pan mae'r jig so yn ffitio'r darlun mawr, tydi? Gwych!”

## Colofn ddŵr.....’ta be?



*Here is a photographic record of a supposed water spout spotted at Benllech, Anglesey on 16th September this year. But the Met Office have said that it is in fact a "Funnel Cloud" - it only becomes a waterspout if it makes contact with the sea, or a tornado if it touches land.*

Gaynor Ainscough

Cymdeithas Edward Llwyd: Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027 **Ychwanegwch ddeunydd i llennatur@yahoo.co.uk** Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.